COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD O BELL TRWY MICROSOFT TEAMS, DYDD MAWRTH, 9 CHWEFROR 2021, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| CE Smith | HM Williams | D Patel | RE Young |
| NA Burnett | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Justin Kingdon | Rheolwr Rheoli Asedau a Buddsoddi Strategol |
| Gaynor Thomas | Rheolwr Rhaglen Ysgolion |

611. DATGAN BUDDIANT

Dim.

612. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2021-22 HYD 2024-25 A'R BROSES AR GYFER YMGYNGHORI AR DDRAFFT Y GYLLIDEB

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol adroddiad er mwyn cyflwyno sylwadau, canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol (PTChC) ynghylch cynigion Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor gerbron y Cabinet.

Er rhwyddineb, dywedodd fod y PTChC wedi rhannu'r argymhellion i wahanol atodiadau, fel a ganlyn:

Roedd canfyddiadau ac argymhellion Panel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb (PYGG) ynghylch Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2021-2022 hyd 2024-2025 wedi'u cynnwys yn Atodiad A ac Atodiad B yr adroddiad.

Roedd y sylwadau a'r argymhellion o gyd-gyfarfod yr holl Bwyllgorau Craffu ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2021-22 hyd 2024-25 yn Atodiad C yr adroddiad.

Roedd y PTChC wedi derbyn argymhellion a sylwadau PYGG a chyd-gyfarfod yr holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ynghylch cynigion y SATC, ac felly wedi cytuno i'w cyflwyno gerbron y Cabinet.

Mynegodd y Dirprwy Arweinydd ddiolch i Aelodau'r Pwyllgorau Craffu, gan gynnwys y PTChC a PYGG, am eu gwaith caled a'u diwydrwydd dyladwy wrth gyfrannu eu sylwadau ar gynigion y SATC i'w hystyried gan y Cabinet. Ychwanegodd y byddai'r sylwadau a'r argymhellion a wnaed drwy hyn yn cael eu hystyried yn ofalus ac yn derbyn

ymateb gan y Weithrediaeth. Ategwyd hyn gan yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a'r Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio, yn eu tro.

Teimlai Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol y gallai hefyd fod yn adeg dda i ailystyried rôl a chylch gwaith PYGG, er mwyn gweld a ellid cyflwyno unrhyw welliannau i'w ddull gweithredu, gan gadw mewn cof fod y panel wedi cael ei gyflwyno 3 blynedd yn ôl bellach, hy, ychydig ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ar drothwy'r weinyddiaeth newydd.

Teimlai'r Arweinydd y byddai hyn yn fuddiol, yn enwedig ochr yn ochr â'r gwahanol ffyrdd yr oedd y Cyngor bellach yn cynnal ei fusnes, hy, drwy gynnal cyfarfodydd o bell ac ati. Cyfeiriodd at Argymhelliad 12 yng ngwybodaeth ategol yr adroddiad, sef y dylid sefydlu gweithgor i fynd ati'n weithredol i ddynodi buddsoddiadau untro cymharol fach ar lwybrau diogel i'r ysgol, a allai gael eu gosod yn erbyn costau parhaus trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol. Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn croesawu'r argymhelliad hwn.

Diolchodd hefyd i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a PYGG am eu mewnbwn i gynigion y Gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod.

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Cabinet hwnnw i ystyried argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Craffu Corfforaethol, mewn ymateb i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2021-22 hyd 2024-25 a'r Broses ar gyfer Ymgynghori ar Ddrafft y Gyllideb, ac y byddai'r sylwadau ar y rhain yn adroddiad y SATC yn cael eu hystyried yng nghyfarfod y Cyngor ar y Gyllideb yn ddiweddarach y mis hwn.

613. POLISI ATAL EFADU TRETHI

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid, adroddiad er mwyn cyflwyno'r Polisi Atal Efadu Trethi newydd i'w gymeradwyo gan y Cabinet.

Roedd yr adroddiad yn rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndir, ac ar ôl hynny cadarnhawyd bod y Cyngor wedi ymrwymo i sefydlu a chynnal trefniadau effeithiol i ganfod achosion o lwgrwobrwyo, llygredd ac efadu trethi mewn perthynas â'i wasanaethau Cyngor. Mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob Aelod Etholedig a chyflogai arddangos y safonau uchaf o onestrwydd ac uniondeb, gan gynnwys cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Esboniodd fod gan y Cyngor eisoes bolisïau Atal Twyll a Llwgrwobrwyo, ac Atal Gwyngalchu Arian mewn grym i gefnogi trefniadau effeithiol i atal a chanfod achosion o lwgrwobrwyo a llygredd. Roedd y rheiny'n cael eu monitro a'u hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Erbyn hyn, ychwanegodd fod polisi wedi cael ei ddatblygu'n benodol er mwyn ymdrin â'r angen i atal efadu trethi, a byddai'r polisi hwn yn cynnig ymagwedd gydlynol a chyson i bob cyflogai ac unrhyw un sy'n cyflenwi gwasanaethau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac ar ei ran. Roedd y Polisi Atal Efadu Trethi wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad.

Roedd y datganiad polisi hwn yn atodol i Strategaeth Atal Twyll a Llwgrwobrwyo ehangach y Cyngor, a nodai'r prif gyfrifoldebau o ran atal twyll, a'r hyn i wneud pe ceir amheuaeth o dwyll neu afreoleidd-dra ariannol, a'r camau a gymerir gan reolwyr o ganlyniad i hynny.

Diolchodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid i'r Rheolwr Cyllid - Llywodraethu a'r Trysorlys am ei gwaith caled er mwyn datblygu'r Polisi.

Cymeradwyodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad a fyddai'n diogelu'r Awdurdod ac yn sicrhau bod pawb a ddylai dalu treth yn gwneud hynny go iawn. Gofynnodd a oedd darpariaethau'r Polisi'n berthnasol hefyd i aelodau lleol.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid eu bod yn berthnasol.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a fyddai staff yn derbyn hyfforddiant ar y Polisi. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Rheolwr Cyllid - Llywodraethu a'r Trysorlys y byddai modiwl hyfforddi e-ddysgu yn cael ei roi ar waith ar gyfer hyn, fel y gwnaed â'r Polisi Atal Twyll a gyflwynwyd yn flaenorol.

Roedd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn dymuno gwneud pwynt ynghylch Taliadau Uniongyrchol a'r ymgyrch i gwsmeriaid bregus o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol dderbyn a newid i hyn. Dywedodd ei bod am gael sicrwydd y byddai digon o wybodaeth yn cael ei rhannu a hyfforddiant ar gael i'r rhai sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol er mwyn sicrhau na fyddai'r math hwnnw o gwsmer, yn benodol, yn gweithredu'n groes i'r gyfraith ar ddamwain. Dywedodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod angen cyfleu'n glir wrth yr unigolion hyn beth oedd eu cyfrifoldebau fel cyflogeion, a sicrhau bod ganddynt fynediad at yr wybodaeth gywir.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ymchwilio i'r trefniadau ar gyfer rheoli Taliadau Uniongyrchol a'r cyfrifon ar eu cyfer, er mwyn helpu i atal problemau tebyg i'r hyn y cyfeiriwyd ato uchod.

Daeth yr Arweinydd â'r drafodaeth ar yr adroddiad i ben drwy ddweud fod CaThEM ar hyn o bryd yn ymdrin ag 13 achos troseddol corfforaethol byw o dwyll trethi ar hyn o bryd, a bod 18 achos arall yn cael eu hadolygu. Roedd angen felly i'r holl gyflogeion yn y sefydliad gydnabod pwysigrwydd efadu trethi, hyd yn oed os oeddent yn gwneud hynny ar ddamwain yn hytrach nag yn fwriadol. Roedd hi'n ddyletswydd hefyd i'r Awdurdod, drwy ei Bolisi a'i weithdrefnau a'i brotocolau cysylltiedig, ymdrechu i sicrhau nad oes unrhyw gyflogai'n gweithredu'n groes i ddarpariaethau'r Polisi newydd, lle bynnag y bo modd.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:-

- Yn cymeradwyo'r Polisi Atal Efadu Trethi a geir yn Atodiad A yr adroddiad;
- Yn nodi'r diwygiadau a gynigir i'r Cylch Gorchwyl a'r Cyfansoddiad a geir yn Atodiad B i'w cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Cyngor.

614. <u>Y FLAENRAGLEN WAITH</u>

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio adroddiad a ofynnai am gymeradwyaeth y Cabinet i gynnwys eitemau ynn ei Flaenraglen Waith ar gyfer y cyfnod 1 Mawrth 2021 hyd 30 Mehefin 2021.

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, caiff y Flaenraglen Waith ei pharatoi gan y Swyddog Monitro i gynnwys cyfnod o bedwar mis, ac eithrio pan fydd etholiadau arferol y

cynghorwyr yn cael eu cynnal. Bryd hynny bydd y Flaenraglen Waith yn trafod y cyfnod hyd at ddyddiad yr etholiadau.

Esboniodd y bydd y Flaenraglen Waith yn cynnwys eitemau ar ffurf adroddiadau, y byddai'r Cabinet, y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'r Cyngor llawn yn debygol o'u hystyried.

Ynghlwm wrth yr adroddiad yr oedd Blaenraglen Waith y Cabinet (Atodiad 1), Blaenraglen Waith y Cyngor (Atodiad 2) a'r Flaenraglen Waith Trosolwg a Chraffu (Atodiad 3) i'w nodi.

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol ei bod hi'n bwysig i'r cyhoedd weld eitemau amserol a oedd ar ddod wedi'u clustnodi ar gyfer agendâu'r Cabinet, y Cyngor a Chraffu, er tryloywder ac er mwyn helpu i alluogi sianelau ymgysylltu ag etholwyr y Fwrdeistref Sirol. Pwrpas hyn oedd rhannu manylion adroddiadau a oedd ar ddod i'w trafod gan Aelodau/Swyddogion ar feysydd gwasanaeth allweddol y Cyngor ayyb y gallai fod ganddynt ddiddordeb ynddynt, ac er mwyn ceisio cynyddu eu diddordeb ym mhrosesau penderfynu'r awdurdod lleol, y mae rhai ohonynt yn effeithio ar y Fwrdeistref Sirol gyfan.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:

- Yn cymeradwyo Blaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod 1 Mawrth 2021 hyd 30 Mehefin 2021 yn Atodiad 1 yr adroddiad;
- Yn nodi Blaenraglenni Gwaith y Cyngor a Chraffu ar gyfer yr un cyfnod â'r uchod, y naill yn Atodiad 2 a'r llall yn Atodiad 3 yr adroddiad.

615. <u>DYFARNU CYLLID MEWN PERTHYNAS Â THRAWSNEWID TREFI: GRANT SEILWAITH GWYRDD A BIOAMRYWIAETH: PENTREF LLES SUNNYSIDE 2020-2021</u>

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad er mwyn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i dderbyn cynnig cyllid diwygiedig gan Lywodraeth Cymru ac ymrwymo i gytundeb a phridiant tir cysylltiedig â Linc Cymru (Linc) i gefnogi darparu elfennau Trawsnewid Trefi - Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth ym Mhentref Lles Sunnyside.

Esboniodd fod y grant Trawsnewid Trefi - Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth yn rhan o raglen Trawsnewid Trefi (TT) Llywodraeth Cymru. Bwriedir i'r rhaglen TT adeiladu ar gyflawniadau rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid 2014-2017, ond ei fod yn mabwysiadu ymagwedd ehangach at adfywio drwy gynnwys uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r blaenoriaethau a nodwyd mewn Cynlluniau Llesiant Lleol a chynlluniau eraill lleol a rhanbarthol, er mwyn gwella adfywio economaidd a llesiant cymunedol.

Bwriadwyd i'r rhaglen TT barhau hyd fis Mawrth 2022, a byddai'n ystyried buddsoddi mewn prosiectau a all greu canlyniadau realistig o safbwynt economaidd a chymunedol. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPO) yn ceisio sicrhau'r canlyniadau hyn dros flynyddoedd ariannol 2020-2021 a 2021-2022. Roedd yn rhaid i awdurdodau lleol wneud ceisiadau am gyllid iddynt hwy eu hunain neu ar ran sefydliad cyhoeddus, preifat neu drydydd sector arall.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod Linc Cymru wedi cysylltu â CBSPO i ofyn am gael cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am gyllid Seilwaith Gwyrdd i gefnogi'r elfennau seilwaith gwyrdd yn natblygiad Pentref Lles Sunnyside.

Prosiect arfaethedig sy'n cyfuno tai cymdeithasol, iechyd a mannau agored gwyrdd yw Pentref Llesiant Sunnyside. Mae'r prosiect yn cael ei ddatblygu gan Linc Cymru a bwriedir ei leoli wrth ymyl canol tref Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r datblygiad ehangach yn cynnwys Cyfleuster Gofal Iechyd newydd a 59 o dai fforddiadwy newydd. Mae seilwaith gwyrdd yn rhan annatod o gysyniad y Pentref Llesiant, gyda'r nodweddion allweddol yn cynnwys ardal dyfu gymunol, ardal chwarae naturiol, plannu coed peirianegol, gwarchod a meithrin y coedlun presennol.

Roedd £315,268 wedi'i gymeradwyo ar gyfer elfennau seilwaith gwyrdd datblygiad Sunnyside, ac un o'r amodau yn llythyr dyfarnu cyllid Llywodraeth Cymru oedd bod yn rhaid i CBSPO sefydlu telerau ac amodau priodol ar gyfer y grant yn unol â'u hamodau cyllid wrth drosglwyddo cyllid y Seilwaith Gwyrdd i unrhyw dderbynnydd trydydd parti.

Daeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau a'i hadroddiad i ben drwy hysbysu y byddai Linc Cymru fel datblygwyr datblygiad Sunnyside yn gweithredu fel derbynwyr trydydd parti'r cyllid, a chan hynny, ei bod hi'n ofynnol i CBSPO ymrwymo i gytundeb cyllido â Linc Cymru.

Roedd yr Aelod Cabinet - Cymunedau yn croesawu'r adroddiad.

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio fod elfen seilwaith gwyrdd y cynigion yn ddymunol iawn, ac ystyriodd a ellid defnyddio mwy o gyllid o'r math hwn i ddarparu gwaith tebyg ar y cyd â'r hyn sydd wedi'i gynllunio ar Bromenâd y Dwyrain, Porthcawl, yn rhan o waith Tir y Cyhoedd yn y dref. Pe bai hyn yn bosibl, teimlai hefyd y byddai'n syniad da cynnwys pobl leol yn y gwaith hwnnw.

Roedd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn ystyried Pentref Llesiant Sunnyside fel cyfle cyffrous, gan fod angen dybryd am y mannau glas ychwanegol y byddai'r datblygiad yn eu creu ger canol y dref. Teimlai fod y prosiect yn creu potensial enfawr am weithgarwch presgripsiynau cymdeithasol i unigolion, a hefyd yn cyfrannu at ddatgarboneiddio ardal a oedd wedi bod yn broblematig iawn yn hynny o beth.

Cytunodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol y byddai'r prosiect o gymorth i liniaru problemau rheoli ansawdd yr aer am ei fod yn agos at Stryd y Parc, lle cafwyd problemau'n gysylltiedig ag allyriadau o gerbydau yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Roedd hi hefyd yn falch o weld bod tai cymdeithasol wedi'u cynnwys fel elfen yn y cynigion datblygu. Gofynnodd a fyddai datblygiad Sunnyside yn cael ei gysylltu â themâu Uwchgynllun Pen-y-bont ar Ogwr. Mewn ymateb i hynny dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai hynny'n digwydd a rhoddodd rai enghreifftiau o'r modd y byddai'r naill a'r llall yn cydblethu â'i gilydd.

Roedd cynigion y seilwaith gwyrdd ar safle Sunnyside hefyd yn galondid i'r Arweinydd, ac y byddai modd drwy'r bartneriaeth rhwng Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr ac CBSPO wrth ailddatblygu Tŷ Ardd, i'r bobl a fyddai'n preswylio yno fanteisio ar y cynigion, a fyddai o fudd iddynt hwy a'u llesiant.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

(1) Yn derbyn y llythyr cyllid diwygiedig dyddiedig 13 Ionawr 2021 mewn perthynas â Trawsnewid Trefi: Grant Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth gan LIC ar gyfer 2020-21.

(2) Yn rhoi awdurdod dirprwyol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

a Rheoleiddio, negodi ac ymrwymo i gytundeb cyllido er mwyn darparu'r uchod, ac ymrwymo i bridiant cyfreithiol â Linc Cymru ar y datblygiad.

616. GRANT ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth adroddiad er mwyn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ymrwymo i gytundeb â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT), Cyngor Dinas a Sir Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ar gyfer Grant Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol 2020-21.

Esboniodd mai cynllun gan Lywodraeth Cymru a ariennir drwy grant i gefnogi darpariaeth y rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol yw Grant Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol 2020-21 (Grant ADY). Roedd hyn yn cynnwys paratoi am Ddeddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg (Cymru) 2018 (Deddf TADYA) a rheoli gweithrediad y Ddeddf honno.

Roedd CBSRhCT, gan weithredu fel yr awdurdod lleol arweiniol, wedi cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am y Grant ADY ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPO), Cyngor Dinas a Sir Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a darparwyr trydydd parti (sydd o'r sector addysg bellach ac yn fyrddau iechyd lleol yn rhanbarthau'r cynghorau).

Aeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn ei flaen i ddweud bod y Cabinet, ym mis Rhagfyr 2019, wedi cymeradwyo ymrwymo i gytundeb tebyg, ar delerau tebyg, ar gyfer Grant Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol 2019-2020.

Bu'r cais am y Grant ADY yn llwyddiannus, a dyfarnwyd hyd at £934,562 o gyllid i CBSRhCT (fel awdurdod lleol arweiniol), a gaiff ei ddyrannu i bob cyngor yn unol â'r Cynllun Gweithredu ADY.

Fel yr awdurdod lleol arweiniol, mae'n ofynnol i CBSRhCT dderbyn telerau ac amodau'r Grant ADY, fel y'u nodir yn y llythyr cynnig gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn cyflawni'r prosiect a sicrhau cydymffurfiaeth a'r telerau a'r amodau yn llythyr y cynnig, mae CBSRhCT yn gofyn i'r Cyngor, ynghyd â'r 3 awdurdod lleol arall a restrir ym mharagraff 3.2 yr adroddiad, ymrwymo i gytundeb yn gysylltiedig â'r Grant ADY. Bydd y cytundeb yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r cynghorau, a'r dull o ddyrannu'r cyllid.

O ran goblygiadau ariannol yr adroddiad, cyfanswm gwerth y grant ar gyfer 2020-21 oedd £934,562. Fodd bynnag, £809,562 yw'r swm sydd ar gael i awdurdodau lleol gan fod £125,000 yn cael ei gadw'n ôl i gyflogi Arweinydd Trawsnewid ADY rhanbarthol a chostau cysylltiedig, a chymorth gweinyddol ac ariannol. Dyraniad y grant sydd i'w wario gan Awdurdodau Lleol yw £248,487, ac o'r swm hwnnw mae CBSPO yn disgwyl derbyn £60,885. Gorffennodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd drwy ddweud bod gweddill y grant yn cael ei ddyrannu i Ysgolion, Addysg Bellach ac Iechyd.

Roedd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio yn croesawu argymhellion yr adroddiad a fyddai o fudd i'r holl awdurdodau lleol a oedd yn rhan o Gonsortiwm Canolbarth y De.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar y byddai'r cyllid grant o fudd i'n plant ag ADY yr oedd arnynt angen mwy o fuddsoddiad i dderbyn addysg gydradd â phobl ifanc eraill.

Roedd yr Arweinydd yn falch o nodi bod LlC wedi gwrando ac yn parhau i ymgysylltu â'r sector, er bod angen buddsoddiad ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy i helpu gyda'r cynigion trawsnewid, a'r trefniadau ar gyfer rheoli'r rheiny. Fodd bynnag, gwerthfawrogai'r ffaith na fyddai'r costau wedi'u gwireddu'n llawn nes bo'r prosiect, nid yn unig yn weithredol, ond wedi esblygu.

Teimlai fod darpariaethau'r adroddiad hefyd yn enghraifft dda o waith partneriaeth, gyda'r awdurdodau lleol cyfagos yn ymwneud â'r Cytundeb.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:-

- Yn cymeradwyo y dylai'r cyngor ymrwymo i'r cytundeb â CBSRhCT, Cyngor Dinas a Sir , Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ynghylch y Grant Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol 2020-2021; a

- Yn rhoi awdurdod dirprwyol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd negodi a chytuno ar delerau terfynol y cytundeb â'r Cynghorau eraill ac ymrwymo i'r cytundeb hwnnw a threfnu i'w weithredu, ar yr amod bod yr awdurdod dirprwyol hwnnw'n cael ei arfer mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio.

617. MODERNEIDDIO YSGOLION - GOGLEDD DDWYRAIN PEN-Y-BONT AR OGWR - CANLYNIAD YR ASTUDIAETH DDICHONOLDEB YM MRYN BRACLA

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad er mwyn:

- hysbysu'r Cabinet ynghylch canlyniad yr astudiaeth ddichonoldeb o'r bwriad i adleoli Ysgol Gymraeg (YG) Bro Ogwr i safle Bryn Bracla, ac ehangu'r ysgol honno;
- gofyn am gymeradwyaeth i hepgor safle Bryn Bracla o unrhyw ystyriaethau pellach ynghylch cynnig Band B Ysgol Bro Ogwr; a
- gofyn am gymeradwyaeth i archwilio opsiynau amgen ar gyfer yr ysgol newydd.

Esboniodd fod Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) Band B wedi'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru (LlC) ym mis Gorffennaf 2017. Ym mis Hydref 2017, cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet yn manylu ar ganlyniad adolygiad Band B, a rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i derfynu'r cynlluniau Band B gwreiddiol a nodwyd yn adroddiad Tachwedd 2010 i'r Cabinet, a chymeradwyo'r Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) a'r prosiectau a restrwyd ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.

Ar 6 Rhagfyr 2017, rhoddodd Adran Addysg LlC 'gymeradwyaeth mewn egwyddor' ar gyfer ail don fuddsoddi Pen-y-bont ar Ogwr, a oedd yn costio cyfanswm o £68.2m yn ôl yr amcangyfrif ar y pryd. Roedd costau pellach i'w pennu, a byddai'r rheiny'n gysylltiedig â chapasiti seilwaith ychwanegol.

Yn ddiweddarach, ym mis Ionawr 2020, cyflwynwyd canlyniad yr arfarniad cynhwysfawr o opsiynau yn gysylltiedig â phob un o'r prosiectau cymeradwy.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod cymeradwyaeth y Cabinet wedi'i sicrhau i fwrw ymlaen ag astudiaeth ddichonoldeb o fryn Bracla yn gysylltiedig â'r opsiwn addysg a ffafrir ar gyfer cynllun Gogledd-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr, hy YG Bro Ogwr â mynediad 2.5 dosbarth ar safle Bryn Bracla.

Wrth fwrw ymlaen â'r astudiaeth ddichonoldeb, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod tîm y prosiect wedi comisiynu'r holl arolygon perthnasol, sydd wedi cael eu dadansoddi gan y disgyblaethau unigol. Mae pob disgyblaeth wedi cyfrannu at yr 'Adroddiad Dichonoldeb - Bryn Bracla' terfynol.

Roedd adrannau canlynol yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o brif agweddau'r canfyddiadau o'r astudiaeth ddichonoldeb honno (paragraffau 4.2 - 4.12, gan gynnwys y paragraffau hynny)

Gorffennodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd drwy ddweud, ac ystyried yr holl ffactorau hyn, mai argymhelliad y tîm prosiect oedd na ddylid bwrw ymlaen i ddatblygu'r ysgol newydd ar safle Bryn Bracla. Ychwanegodd y dylid felly archwilio opsiynau eraill am safleoedd.

Mynegodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio ddiolch i'r Swyddogion am yr adroddiad. Mynegodd ddiolch hefyd i Aelod Llafur Ward Bracla a chynrychiolwyr grŵp 'Save Our Fields' Bracla am drafod cynigion a chanlyniadau'r Astudiaeth Ddichonoldeb mewn modd cadarnhaol, ac am eu hystyriaeth a'u hymgysylltiad cyffredinol â'r Cabinet ynghylch lleoli YG arfaethedig Bro Ogwr. Mynegodd ddiolch hefyd i Carwyn Jones AC am gyfrannu at archwilio'r posibiliadau am gyllid ar gyfer yr ysgol (cyfrwng Cymraeg a Saesneg) ar safle(oedd) eraill addas ger Bracla, lle byddai'r ysgolion yn cael eu hailddatblygu. Teimlai fod angen ymgysylltu â Chyngor Cymuned Bracla, gyda golwg ar warchod y man glas a gynigiwyd yn wreiddiol i leoli'r ysgol(ion) rhag datblygwyr, o bosib drwy fynd ar drywydd cytundeb Trosglwyddo Ased Cymunedol ryw bryd yn y dyfodol.

Adleisiodd yr Arweinydd fod yr ymarfer ymgysylltu a gynhaliwyd rhwng yr Awdurdod a grŵp 'Save Our Fields' Bracla yn gysylltiedig â'r Astudiaeth Ddichonoldeb wedi bod yn gadarnhaol, a bod hynny wedi bod yn amhrisiadwy. Roedd yn rhaid i'r Cyngor ofalu am ei fannau gwyrdd/agored, gan ddatblygu capasiti ar yr un pryd ar gyfer cyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Gogledd-ddwyreiniol Pen-y-bont ar Ogwr.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ei bod yn falch o weld Bryn Bracla yn cael ei gadw fel ardal o dir glas agored, yn enwedig gan nad oedd llawer o ardaloedd felly yn ardal canol tref gyfagos Pen-y-bont ar Ogwr.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

- Nodwyd canlyniad yr astudiaeth ddichonoldeb ar-safle yn gysylltiedig â'r bwriad i adleoli Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i safle Bryn Bracla, ac ehangu'r ysgol honno;
- Yn cymeradwyo hepgor safle Bryn Bracla o unrhyw ystyriaethau pellach yn gysylltiedig ag YG Bro Ogwr; ac
- Yn cymeradwyo i archwilio opsiynau amgen ar gyfer yr ysgol newydd.

618. EITEMAU BRYS

Dim.

619. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, y dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem ganlynol gan ei bod

yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

Ar ôl cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd rhoi ystyriaeth breifat i'r eitem ganlynol, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, oherwydd yn yr holl amgylchiadau a oedd yn gysylltiedig â'r eitem, ystyriwyd bod budd y cyhoedd o gynnal yr esemptiad yn gwrthbwyso budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.

620. MODERNEIDDIO YSGOLION - GOGLEDD DDWYRAIN PEN-Y-BONT AR OGWR

Daeth y cyfarfod i ben am 16:15